PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Budd-daliadau a Phethau i'w Hawlio - Addysg

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 7 o 12

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

VFCC
VOICES FROM CARE CYMRU

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Cyllidebu
- Mynd o gwmpas- Ynys Môn

Prosiect Paratoi

## Gwefannau defnyddiol

I gael rhagor o wybodaeth, cer i

- **https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab.aspx**
- **https://www.colegsirgar.ac.uk/index.php/cy/10-welsh/640-cefnogi-dysgwyr**
- **https://www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/get-funding-train-learn**

# COLEG - GRANTIAU



Mae cymorth ar gael i ti os wyt ti am fynd i'r Coleg. Beth am ddechrau gyda grantiau.

## Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Lwfans yw hwn rwyt ti'n ei gael pan fyddi di'n mynd i Goleg.
Rhaid i ti fod:

- yn 16-18 oed
- yn byw mewn cartref incwm isel
- byddi'n cael £30 yr wythnos
- rhaid i ti barhau i fynd i'r Coleg er mwyn parhau i dderbyn yr arian




Gwna gais am y lwfans hwn erbyn diwedd Mehefin cyn bod dy gwrs yn dechrau.
I gael rhagor o wybodaeth, siarad â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

Os wyt ti'n 19+ oed, mae'n bosib i ti gael rhywfaint o gymorth tuag at gostau astudio:

- gallet ti gael hyd at £1500 ar gyfer cwrs amser llawn
- gallet ti gael hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan amser
- bydd y swm rwyt ti'n ei gael yn dibynnu ar dy incwm

Mae’n syniad da cyflwyno cais erbyn diwedd Mehefin cyn bod dy gwrs yn dechrau.

## Princes Trust

Ar gyfer pobl ifanc 16-30 oed
Rwyt ti'n gallu gwneud cais am gymorth gyda'r costau canlynol:

- ffioedd cwrs
- offer

Rhaid i ti fod:

- yn astudio am lai na 14 awr yr wythnos neu heb fod yn derbyn addysg orfodol
- yn ddi-waith neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos



**Rhagor o wybodaeth**

Mae Coleg Menai yn rhan o Grŵp Llandrillo Menai

I gael gwybodaeth gyffredinol am y Coleg:

- https://www.gllm.ac.uk/
- ebost: learnerservices.menai@gllm.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Gymorth i Fyfyrwyr, cer i:

- https://www.gllm.ac.uk/student-information/student-support/

Mae gwybodaeth am gefnogaeth ariannol ar gael yn:

- https://www.gllm.ac.uk/financial-support-and-finance/school-leavers/

COLEG MENAI

Mae'r dudalen yma'n disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n mynd i Goleg Menai



# Y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu

- Gallai'r gefnogaeth fod am gyfnod byr neu ar hyd dy astudiaethau
- Os wyt ti'n cael trafferth gyda mater personol, rwyt ti'n gallu gofyn am siarad â'r Cydlynydd Lles Myfyrwyr
- Os wyt ti'n cael trafferth gyda'th astudiaethau, rwyt ti'n gallu cael cefnogaeth gan Hyfforddwr Dysgu
- Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Dysgu hefyd yn gallu rhoi arweiniad ar yrfaoedd, addysg uwch, cyfleoedd am swyddi, iechyd a lles

Os wyt ti'n byw dros 3 milltir o'r campws, fe gei di wneud cais am docyn bws am ddim

# Cronfa Cefnogi Dysgwyr

- Mae gan Goleg Menai gronfa i helpu myfyrwyr a allai gael trafferth fforddio rhai o gostau'r cwrs
- Dyma rai pethau y gallai fod angen help arnat ti ar eu cyfer: gwisg swyddogol, offer ar gyfer y cwrs, teithiau, trafnidiaeth neu wiriad DBS
- Siarad â staff y Gwasanaethau Dysgwyr i gael rhagor o wybodaeth

## Cefnogaeth gan Gyngor Ynys Môn

Os wyt ti wedi 'derbyn gofal' gan Gyngor Ynys Môn, byddi di'n cael peth cefnogaeth wrth fynd i'r Brifysgol

- Gliniadur a meddalwedd (os na chefaist ti hynny wrth fynd i'r Coleg)
- Gwerslyfrau- **taleb** ar gyfer llyfrau cwrs hanfodol
- Ffïoedd cofrestru ac arholiadau- byddan nhw'n cael eu talu bob blwyddyn
- Tocyn trafnidiaeth blynyddol (os wyt ti'n byw mwy na 3 milltir o'r Brifysgol)
- Llety- byddan nhw'n ychwanegu at unrhyw fenthyciad myfyriwr fel ei fod yn cyfateb i fudd-dal tai
- Lwfans personol- byddan nhw'n ychwanegu at unrhyw fenthyciad myfyriwr fel ei fod yn cyfateb i dderbyn budd-daliadau'r wladwriaeth
- Seremoni raddio- **hyd at £100** tuag at gost gŵn etc.
- Costau llety gwyliau- telir am y rhain os wyt ti'n dod nôl i Ynys Môn

# ADDYSG UWCH



Wedi bod yn y Coleg ac yn ystyried y cam nesaf? Yma, byddwn ni'n edrych ar y cymorth sydd ar gael i ti os wyt ti am fynd i'r brifysgol

## Bwrsariaeth Addysg Uwch

- Mae gen ti hawl i gael Bwrsariaeth Addysg Uwch
- Mae'n werth £2000
- Dy gyngor lleol sy'n talu
- Does dim angen talu'r arian yma'n ôl
- Hola dy gynghorydd personol am hyn

Mae'n bosib bydd y Brifysgol rwyt ti'n gwneud cais iddi yn cynnig ei bwrsariaethau neu ei grantiau ei hun i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Os wyt ti eisiau mynd i Brifysgol sydd ymhellach i ffwrdd, cer i wefan Propel i weld pa gymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. **https://propel.org.uk/UK/**

## Grant Cymorth Arbennig

Mae hwn ar gael i'r canlynol:

- Rhieni sengl
- Pobl sy'n derbyn y rhan o Gredyd Cynhwysol sy'n ymwneud â thai

Os wyt ti'n gymwys ar gyfer y grant yma, gallet ti gael £5,161 y flwyddyn

## Benthyciad Cynhaliaeth

- Mae'n bosib i ti wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth
- Mae'r swm byddi di'n ei dderbyn yn dibynnu ar dy incwm
- Os wyt ti'n byw ar aelwyd incwm isel, mae'n bosibl byddi di'n cael rhywfaint o'r arian ar ffurf grant hefyd sy'n golygu na fydd rhaid i ti dalu rhywfaint o'r arian yn ôl.

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

- Mae'r swm byddi di'n ei gael yn dibynnu ar dy incwm
- Po fwyaf yw dy incwm, lleiaf byddi di'n ei gael!

### Person a enwebwyd

Y pwynt cyswllt cyntaf wrth wneud cais i Brifysgol Bangor yw Wendy Williams:

- 01248 383637
- wendy.williams@bangor.ac.uk

Efallai bydd gwefan Undeb y Myfyrwyr o ddefnydd hefyd

- **https://www.undebbangor.com/**

### Gwybodaeth ddefnyddiol

I gael gwybodaeth gyffredinol am fywyd yn y brifysgol, edrych ar:

- **https://www.themix.org.uk/**
- **https://www.nus.org.uk/**
- **https://www.prospects.ac.uk/applying-for-university/university-life**
- **https://www.thestudentroom.co.uk/university/life/what-university-is-really-like**

PRIFYSGOL BANGOR

Meddwl am fynd i'r Brifysgol? Yma fe gei di flas ar y gefnogaeth sydd ar gael ym Mhrifysgol Bangor.

## Cefnogaeth cyn mynd i'r Brifysgol

Os wyt ti wedi dweud bod gen ti brofiad o ofal yn dy gais neu yn dy Goleg, bydd y Brifysgol yn:

- Dy helpu i lenwi dy gais am gyllid myfyriwr
- Rhoi canllawiau ymlaen llaw o'r Ganolfan Sgiliau a Chyflogadwyedd

- Gofala nodi ar dy gais UCAS dy fod ti'n berson ifanc sydd â phrofiad o ofal
- Bydd hynny'n helpu'r Brifysgol i gynnig gwell cymorth i ti

## Cefnogaeth ar y campws

Ar ôl cychwyn, byddi di'n gallu cael:

- Cefnogaeth gan rywun o'r un oed
- Gwasanaethau cwnsela
- Cefnogaeth gydag arian
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cyswllt a enwyd (os wyt ti eisiau hynny)
- Mynediad at wasanaethau myfyrwyr sy'n cynnig cyngor ar y pethau yma: tai; anabledd; iechyd meddwl etc.

## Llesiant

- Gall mynd i'r Brifysgol achosi straen
- Gall olygu newidiadau mawr fel symud i ardal newydd, gwneud ffrindiau newydd ac ati
- Gwna'n siŵr dy fod ti'n gofalu am dy iechyd meddwl a'th lesiant er mwyn gallu dal i feddwl yn gadarnhaol
- I gael cymorth a chynghorion llesiant, cer i: **https://platfform.org/cy/project/pobl-ifanc/**

## Arian a llety!

- Gallet ti dderbyn bwrsariaeth o £1000 y flwyddyn
- Mae hyn ar ben y Bwrsariaeth Addysg Uwch byddi di'n ei gael gan Ynys Môn
- Gwarant o lety ar gyfer y flwyddyn gyntaf
- Llety yn ystod gwyliau'r Brifysgol os bydd angen
- Mynediad at gronfa caledi os wyt ti mewn trafferthion